## Sgôp

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i Grŵp Itec Training Solutions Holdings, gan gynnwys ei gweithwyr. Trwy gydol y polisi hwn, mae unrhyw gyfeiriadau at “y Cwmni” yn golygu Grŵp Itec Training Solutions Holdings a'i is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob gweithiwr, llawn amser neu ran-amser, boed hynny am gyfnod penodol, achlysurol neu barhaol. Nid yw'r polisi yn rhan o unrhyw gontract cyflogaeth gweithwyr, nis yw'n gytundebol a gallwn ei ddiwygio heb rybudd ar unrhyw adeg.

## Pwrpas

Pwrpas y polisi a gweithdrefn hon ydy i nosi ymrwymiad y cwmni i welliant parhaus o fewn ein gweithgareddau busnes amgylcheddol a chynaliadwy. Mae ein busnes yn cwmpasu amrywiaeth o gontractau, a ariennir yn fasnachol a gan y llywodraeth, pob un yn cael ei ddarparu yn unol â gofynion cytundebol y corff ariannu. Mae ein polisi wedi'i gynllunio i sicrhau dull cydlynol a chyd cysylltiedig o ymdrin â datblygu cynaliadwyedd ar draws y busnes. Mae'r polisi, y weithdrefn, a'r cynllun yn nodi ymrwymiadau'r cwmni i leihau effaith amgylcheddol, ac atal llygredd.

## Ymrwymiad Sefydliadol

Adnabyddir y Cwmni ei chyfrifoldeb o gadw gweithgareddau sy'n gynaliadwy. Mae ein hymarferion amgylcheddol yn rhan annatod a sylfaenol o'r ymrwymiad hyn. Credwn fod Datblygiad Cynaliadwy yn synnwyr da i fusnes ac mae'r cwmni'n ymrwymo i weithredu'n gyfrifol ac yn foesegol tuag at ein gweithwyr, ein rhanddeiliaid, ein cadwyn gyflenwi, a thuag at gymdeithas a'r amgylchedd. Fel prif gontractwr, bydd y cwmni'n annog cyflenwyr a chontractwyr i leihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol ein cadwyn gyflenwi.

Mae'r cwmni'n cydnabod ei brif effeithiau amgylcheddol fel defnydd o bapur, ynni a theithio, ac mae'r cwmni wedi ymrwymo drwy ein cynllun i nodi'n rhagweithiol ffyrdd o leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

## Cyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n llawn ac yn effeithiol. Mae'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch a Chyfleusterau yn gyfrifol am gofnodi, monitro, adolygu ac adrodd ar berfformiad yn erbyn y meysydd strategol a'r cynllun gweithredu allweddol. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am gefnogi'r busnes i weithredu ei strategaethau cynaliadwyedd ac amgylcheddol allweddol yn effeithiol.

## Datganiad Polisi

Mae'r cwmni wedi ymrwymo i arloesi, i hyrwyddo safonau newydd o ddatblygu cynaliadwyedd a gwella arferion gorau yn ogystal â'r safonau uchaf o ddylunio, cynaliadwyedd amgylcheddol ac adeiladu.
Mae'r cwmni wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy fel egwyddor arweiniol i:

1. bodloni gofynion rhwymedigaethau cydymffurfio, deddfwriaeth amgylcheddol a chydymffurfio â gofynion cyfrifoldebau cyfreithlon
2. creu effaith positif ar yr amgylchedd ac ar y cymunedau lleol gweithiwn gydag
3. cynnal a datblygu'r cwmni mewn modd cynaliadwy
4. codi ymwybyddiaeth, hyrwyddo a mabwysiadu arferion gorau o fewn y busnes, gan annog arloesiadau newydd
5. datblygu perthynas waith dda gydag awdurdodau a chyrff allanol perthnasol
6. cyfathrebu, rhoi cyngor a gwybodaeth yn effeithiol i'r holl staff, cyflenwyr a chontractwyr ar reolaeth amgylcheddol a chynaliadwyedd
7. diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys atal llygredd o bob ffynhonnell a materion amgylcheddol eraill

Esther Barnes
Cyfarwyddwr AD

Dyddiad: 05th Awst 2025

**Amcan Gwella**

Mae Itec wedi ymrwymo i asesu a lleihau effaith amgylcheddol ein gwasanaethau yn barhaus, gan gyflawni allyriadau net sero yn erbyn 2040, a rhannu allyriadau yn erbyn 2030. Bydd lleihau ein hallyriadau Nwy Tŷ Gwydr (GHG) yn cynnig manteision sylweddol i ni, ein cwsmeriaid, cyflenwyr a'r gymuned ehangach.

**Gweithdrefn Amgylcheddol & Chynaliadwyedd**

Mae trosolwg isod o sut y bydd y cwmni'n cyflawni'r amcanion allweddol a amlinellir yn ein Polisi Amgylcheddol a Chynaliadwyedd.

1. Bodloni gofynion rhwymedigaethau cydymffurfio, deddfwriaeth amgylcheddol a chydymffurfio â chyfrifoldebau cyfreithiol gan:
   - sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau sefydliadol yn cael eu diweddaru yn unol â deddfwriaeth
   - gadw at ofynion y llywodraeth a gofynion cytundebol a'u cefnogi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'n is-gontractwyr wneud yr un peth.

2. Creu effaith positif ar yr amgylchedd ac ar y cymunedau lleol gweithiwn gydag gan:
   - cynnig cyfleoedd i'n gweithwyr a'n cwsmeriaid wella eu cyfleoedd bywyd drwy hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy
   - parhau i fynd i'r afael â'n cyfrifoldebau cymdeithasol drwy ein hymrwymiad i sicrhau bod ein gweithwyr a'n cwsmeriaid yn cael y cymhelliant a'r cyfle i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r cymunedau lleol yr ydym yn gweithio a byw ynddynt.

3. Cynnal a datblygu'r cwmni mewn modd cynaliadwy gan:
   - cynnal systemau ar gyfer cofnodi, mesur a gosod targedau o ran ailgylchu, gwastraff, dŵr ac ynni
   - lleihau'r gwastraff a gynhyrchir a hwyluso'r gwaith atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu wrth waredu gwastraff
   - ceisio lleihau'r effeithiau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth drwy ein cynllun teithio, annog pobl i leihau eu lefelau teithio neu ffyrdd o deithio'n well i weithwyr ac ymwelwyr
   - trosglwyddo cerbydau cwmnïau i hybrid neu drydan
   - sicrhau bod ynni a dŵr mor effeithlon â phosibl
   - cynnal bioamrywiaeth a gwella tir y cwmni.

4. Codi ymwybyddiaeth, hyrwyddo a mabwysiadu arferion gorau yn y busnes, gan fynd ati i annog arloesedd newydd gan:
   - cael ymrwymiad sefydliadol i broses o welliant amgylcheddol parhaus
   - codi ymwybyddiaeth, hyrwyddo diwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol
   - nodi mentrau newydd a'u datblygu
   - annog datblygiadau arloesol newydd a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni sy'n benodol i'r prosiect i leihau effaith amgylcheddol ein rhaglenni a'n gweithgareddau busnes.

5. Datblygu perthynas waith dda gydag awdurdodau a chyrff allanol perthnasol gan:
   - datblygu cysylltiadau â chyrff a chymdeithasau amgylcheddol priodol
   - rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau yn ôl yr angen
   - cynnal safonau ac achrediad Gwobr y Ddraig Werdd.

6. Cyfathrebu'n effeithiol, rhoi cyngor a gwybodaeth i'r holl staff, cyflenwyr a chontractwyr ar reolaeth amgylcheddol a chynaliadwyedd gan
   - rhoi cyngor a gwybodaeth briodol i staff, cyflenwyr a chontractwyr yn ôl y gofyn
   - darparu gwybodaeth drwy gynrychiolwyr gweithwyr a chodi ymwybyddiaeth drwy gylchlythyrau a gwybodaeth

- darparu proses diwydrwydd dyladwy a diweddariadau i is-gontractwyr.
- ystyried effaith ar yr amgylchedd wrth sicrhau'r gwerth gorau mewn proses brynu, gan annog y defnydd o gyflenwyr lleol.
- codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth fel rhan o'r broses ymsefydlu
- hyrwyddo pynciau cynaliadwyedd amgylcheddol gyda dysgwyr.

7. Amddiffyn yr amgylchedd, gan gynnwys atal llygredd o bob ffynhonnell a materion amgylcheddol eraill gan
    - roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â llygredd
    - cadw ystyriaeth amgylcheddol o fewn cynllun digwyddiad critigol
    - cadw ymrwymiad i leihau carbon.

**Adrodd**

I roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd neu ddiffyg cydymffurfio, cyfeiriwch at Elizabeth Williams, Rheolwr Iechyd a Diogelwch a Chyfleusterau, am arweiniad pellach.